| Sesiwn Gwrandawiad 4 – Tai fforddiadwy | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| S4/PG1 | Lefel yr angen am dai fforddiadwy | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i adnabod y lefel o angen am dai fforddiadwy yn ystod oes y Cynllun, yn hytrach na 5 mlynedd yn unig, ar sail y wybodaeth yn yr Astudiaethau Marchnad Tai Lleol diweddaraf ar gyfer y ddwy Sir. Cynnwys geirfa ynglyn ag oblygiadau i fethu cael cyfres lawn o Astudiaethau Marchnad Tai Leol. Cynnwys geirfa i gydnabod y gallai gwybodaeth newydd ddod i law yn ystod oes y Cynllun er mwyn hwyluso gwaith monitro ac adolygu. | Erbyn 30/9 |
| S4/PG2 | Cyffredinol | Golygu geiriad polisïau ac eglurhad i bolisïau i sicrhau cysondeb termau a ddefnyddir: safleoedd ar hap, ymrwymiadau, tai fforddiadwy, tai fforddiadwy angen lleol, tai marchnad leol, tai marchnad. | Diffiniadau - erbyn 23/9<br>Geiriad polisïau – erbyn 14/10 |
| S4/PG3 | Cyflenwad tai fforddiadwy | Paratoi papur i roi eglurhad llawnach ynglŷn â sut mae'r Cynllun yn gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd cyflenwi ar gyfer darparu tai fforddiadwy. Dylid cyfeirio at bob cyfle/ ymdrech i gyfrannu at y cyflenwad o dai fforddiadwy. | Erbyn 14/10 |
| S4/PG4 | Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy | Diwygio Asesiad Hyfywdra Tai Fforddiadwy i roi sylw: (a) i gostau ychwanegol yn gysylltiedig â chydymffurfio a'r gofyniad i osod system chwistrellu o dan y Rheoliadau Adeiladu; (b) model rhent cymdeithasol wedi ei bwysoli. | Erbyn 14/10 |
| S4/PG5 | Targedau dangosol tai fforddiadwy | Ail-ystyried casgliadau'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy er mwyn adnabod targedau dangosol tai fforddiadwy a fydd yn gallu | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 4 – Tai fforddiadwy | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | ildio cymaint â phosib o dai fforddiadwy a rhoi arweiniad clir i adeiladwyr tai. | |
| S4/PG6 | Tabl cyflenwad tai fforddiadwy | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i ddiwygio'r tabl ym mharagraff 7.4.65b (Newid a Ffocws NF 67) i roi manylion cyfredol ac ychwanegol am y cyflenwad o dai fforddiadwy a ddisgwylir wrth gymhwyso polisïau'r Cynllun i ddynodiadau, ymrwymiadau a safleoedd ar hap, gan sicrhau cysondeb gyda'r wybodaeth am yr ardaloedd marchnad tai/ trothwyon tai fforddiadwy, targedau dangosol tai fforddiadwy, | Erbyn 14/10 |
| S4/PG7 | TAI 9 a'i eglurhad | Cyflwyno Newid Materion sy'n Codi i Bolisi TAI 9 a'i eglurhad i gynnwys:<br><br>i. Targedau tai fforddiadwy dangosol a fydd yn adlewyrchu dadansoddiad o gasgliadau diweddariad i'r Astudiaeth Hyfywdra Tai Fforddiadwy;<br><br>ii. Cael gwared â'r cyfeiriad at 'o leiaf' wrth gyfeirio at dargedau tai fforddiadwy;<br><br>iii. Casgliadau asesiad o briodoldeb y trothwyon tai fforddiadwy cyfredol;<br><br>iv. Diwygio brawddeg olaf paragraff 7.4.68 i ddarllen: "...... yna **gofynnir am** ~~gellir ceisio~~ cyfraniad pro-rata am ganran y tŷ newydd h.y. 60% yn yr enghraifft hon.";<br><br>v. Arweiniad clir yn unol â'r wybodaeth ddiweddaraf am yr | Erbyn 14/10 |

| Sesiwn Gwrandawiad 4 – Tai fforddiadwy | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfeirnod** | **Pwnc** | **Pwynt Gweithredu** | **Amserlen** |
| | | amrywiaeth/y mathau/y cyfuniad o dai fforddiadwy. | |
| S4/PG8 | TAI 10 | Edrych ar opsiwn amgen i hwyluso datblygiadau gan Gymdeithasau Tai, Adrannau Tai neu Ymddiriedolaeth Tai Cymunedol a chyflwyno Newid Materion sy’n Codi i ail ran o Bolisi TAI 10 a’i eglurhad. | Erbyn 7/10 |
| S4/PG9 | PS14 | Cyflwyno Newid Materion sy’n Codi i gyfeirio at gyfanswm tai fforddiadwy a fydd yn adlewyrchu’r wybodaeth ddaw yn sgil gwaith yn gysylltiedig a’r Pwyntiau Gweithredu perthnasol. | Erbyn 14/10 |